

# Treftadaeth Agored Gysylltiedig: Gweld a chwilio treftadaeth ddiwylliannol mewn perygl drwy brosiectau Wikimedia

John Andersson: Cyfarwyddwr Gweithredol, [Wikimedia Sverige](#)

Oherwydd rhyfeloedd a thrychinebau, esgeulustod a gwaith cynnal gwael mae llawer o'n treftadaeth ddiwylliannol adeiledig, megis henebion, safleoedd archaeolegol ac ati, mewn perygl o gael eu colli am byth. Mae angen diddordeb a gwybodaeth i sicrhau nad yw'n cael ei dinistrio. Er mwyn helpu i ddiogelu ein treftadaeth ddiwylliannol adeiledig bresennol a deall treftadaeth a gollwyd drwy ei hail-greu a'i hadfer, mae angen i wybodaeth fanwl gywir a dibynadwy fod o fewn cyrraedd hwylus i bawb, a hynny am ddim. Gall data strwythuredig sy'n hawdd eu chwilio wneud hynny'n haws, yn gyflymach ac yn fwy diddorol nag erioed o'r blaen.

Gwella strwythur a chwiliadwyedd gwybodaeth am dreftadaeth ddiwylliannol ddisymud ledled y byd yw nod y prosiect [Treftadaeth Agored Gysylltiedig](#). Buom yn gweithio i gynnwys gwybodaeth wedi'i chyd-destunoli ar *Wikipedia*; delweddau newydd a hanesyddol ar *Wikimedia Commons*; a data strwythuredig ar *Wikidata*.



Logoteip Treftadaeth Agored Gysylltiedig. Crëwyd gan: [Shandris](#). Trwydded: [CC0](#).

Yn ystod y cyflwyniad byddwn ni'n siarad am rai o'r heriau a'r gwersi a ddysgwyd wrth brosesu casgliad unigryw o setiau ddata o 50 o wledydd, gweithio i ryddhau setiau data newydd, darganfod ffyrdd o gadw'r casgliad yn gyfoes, a chreu methodolegau i'w gwneud hi'n bosibl i roi'r data ar *Wikidata* ar ffurf safonedig a strwythuredig.

Trafodir hefyd y gwersi a ddysgwyd o ran darganfod lluniau o safleoedd mewn gwahanol amgueddfeydd a'u hychwanegu at y casgliad, a chynnwys gwirfoddolwyr *Wikimedia* a'r cyhoedd yn y broses.

Stryd y Golofnres Fawr a'r acropolis gyda'r castell yn y cefndir, Palmyra, 2006. Fe'u dinistriwyd gan ISIS ers hynny. Crëwyd gan: [Gianfranco Gazzetti/GAR](#). Trwydded: [CC BY-SA 4.0](#).



Prosiect o eiddo [Wikimedia Sverige](#), [UNESCO](#), [Treftadaeth Ddiwylliannol heb Ffiniau](#) a [Wikimedia Italia](#) yw Treftadaeth Agored Gysylltiedig. Fe'i hariennir gan [Sefydliad Diwylliant Loteri Cod Post Sweden](#).



Irina Bokova, Prif Gyfarwyddwr UNESCO, yn edrych ar yr arddangosfa [Journeys Through Our Fragile Heritage](#) ym mhencadlys UNESCO. Crëwyd gan: [Cristelle Alix/UNESCO](#). Trwydded: [CC BY-SA-3.0 IGO](#).